Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru | Children's Legal Centre Wales

Diweddariad Mawrth 2025: Adroddiad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd 'Plant sydd ar yr Ymylon'

Ym mis Rhagfyr 2024, rhyddhaodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd eu hadroddiad, 'Plant sydd ar yr Ymylon', gan ganolbwyntio ar y materion dybryd a wynebir gan blant sy'n mynd ar goll a'r rhai y camfanteisir yn droseddol arnynt.

🔍 **Prif Bwyntiau Data:**

Yn 2022-23, **5,391** o adroddiadau am blant oedd ar goll o ofal. 🏠🔍

Adroddwyd am **2,389 o blant** yn ystod 2022-23 lle roedd camfanteisio ar blant yn ffactor, gan gynnwys 1,139 o achosion o gamfanteisio rhywiol a 1,070 o achosion o gamfanteisio troseddol. 🚑

Yng Nghanolfan Gyfreithiol y Plant Cymru, fe wnaethom gyfrannu tystiolaeth fanwl i'r ymchwiliad hwn, gan eiriol dros weithrediad cadarn dull Hawliau Plant sy'n:

- Sicrhau bod hawliau plant bob amser yn cael eu diogelu. 🛡️
- Yn trin plant fel plant. 👧👦
- Yn blaenoriaethu buddsoddiad digonol mewn ymyrraeth gynnar ac atal. 💡

✨ **Darllen Pellach:**
Mae erthygl ddefnyddiol wedi'i chyhoeddi ar Adroddiad 'Plant sydd ar yr Ymylon' Pwyllgor y Senedd gan Ymchwil y Senedd, Senedd Cymru, sy'n crynhoi rhai o'r canfyddiadau ac yn amlygu peth o'r data cyhoeddedig ar y garfan hon o blant agored i niwed yr effeithir arnynt.

⌨️ **Trafodaeth:** Ar **12 Mawrth 2025**, bu'r Senedd yn trafod canfyddiadau ac argymhellion y Pwyllgor ac yn cynnal dadl ar ymateb Llywodraeth Cymru, mae hwn i'w weld yma: 📎 Ymateb Llywodraeth Cymru

Dadl y Senedd: **Prif Fewnwelediadau** ✨

Ar 12 Mawrth, siaradodd Buffy Williams AS, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn rymus ar y dystiolaeth dorcalonnus a gafodd y Pwyllgor ynghylch 'plant sydd ar ymylon cymdeithas, yn agored i gamfanteisio, cam-drin a thrais'.

Dyma'r pwyntiau allweddol a ddaeth i'r amlwg:

> "Dychmygwch blentyn sydd ar goll, a neb yn gwybod ble maent. Efallai eu bod yn rhedeg oddi wrth rywbeth—camdriniaeth, esgeulustod neu drawma—neu efallai fod rhywun yn camfanteisio arnynt, a'u bod yn cael eu gorfodi i wneud gweithgareddau troseddol peryglus. Nid plant damcaniaethol yw'r rhain; maent yn blant go iawn sy'n byw yng Nghymru heddiw."
> **Buffy Williams MS**

📜 **Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Camfanteisio'n Droseddol ar Blant:** Pwysleisiodd Buffy Williams AS yr angen am strategaeth genedlaethol i fynd i'r afael â chamfanteisio'n droseddol ar blant, er mwyn cael ymateb cyson a chydgysylltiedig ledled Cymru.

🏫 **Cysylltiad rhwng Gwaharddiadau o'r Ysgol a Chamfanteisio Troseddol**: Rydym yn falch bod Buffy Williams MS wedi tynnu sylw at ein pryderon parhaus ynghylch y cysylltiad rhwng gwaharddiadau o'r ysgol a bod y plant hyn yn fwy agored i niwed sy'n eu rhoi mewn perygl o gamfanteisio troseddol.

📊 **Pwysigrwydd Casglu Data'n Well**: Siaradodd Cefin Campbell MS a Joel James MS am ddiffygion y data sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae absenoldeb data dibynadwy a chadarn, ynghyd â diffyg rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau, yn creu bylchau peryglus yn y cymorth, gan ganiatáu i blant agored i niwed "syrthio drwy'r craciau".

🏠 **Mynd i'r Afael â Digartrefedd**: O ystyried ein pryderon ynghylch tlodi plant, roeddem hefyd yn falch bod Jane Dodds MS a Sioned Williams MS wedi beirniadu ymateb y llywodraeth i ddigartrefedd, gan dynnu sylw at y ffaith bod dros 3,000 o bobl ifanc dan 16 oed yn byw mewn llety dros dro a bod llawer o blant â phrofiad o ofal yn wynebu digartrefedd yng Nghymru.

🔍 **Cyfweliadau Dychwelyd Gorfodol i Blant Coll:** Bu Buffy Williams MS yn eiriol dros wneud cyfweliadau dychwelyd yn orfodol ar ôl pob digwyddiad o fod ar goll. Derbyniodd yr argymhelliad hwn gefnogaeth gan sawl Aelod. Cydnabu Dawn Bowden, y Gweinidog dros Blant, yr argymhelliad "mewn egwyddor", ond nododd er bod hawl statudol i gyfweliad dychwelyd adref yn bodoli o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, nad oes angen newidiadau deddfwriaethol ar unwaith, ond y bydd grŵp rhanddeiliaid yn archwilio'r mater.

🛡️ **Gwasanaeth Gwarcheidiaeth i Blant Agored i Niwed sy'n Ceisio Lloches**: Yn olaf, rydym mor falch bod Jane Dodds AS wedi galw eto am sefydlu gwasanaeth gwarcheidiaeth i amddiffyn hawliau plant agored i niwed sy'n ceisio lloches a'u hatal rhag camfanteisio neu fynd ar goll.

Edrychwn ymlaen at weld Llywodraeth Cymru yn cryfhau ei holl ymdrechion i ddiogelu plant sy'n agored i gamfanteisio.